# CYNGOR

## (Canolfan Ddinesig Port Talbot)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **13 Gorffennaf 2022**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd Robert William Wood** |
| **Y Dirprwy Faer:** | **Cynghorydd Chris Williams** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Galsworthy, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, S.Grimshaw, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, D.Thomas, S.Thomas, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, N.Pearce, A.D.Thomas, A.Jarrett, C.Griffiths, M.Shaw, S.Curran, C.John and J.Woodman-Ralph. |

---

1. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Gyda thristwch mawr tynnodd y Maer sylw at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd Stephen Williams a gynrychiolodd Ward Cimla rhwng 2002 a 2008. Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

Yn dilyn hynny, llongyfarchodd y Maer Dr Keith Reid, a dderbyniodd MBE am wasanaethau i'r GIG yn ystod pandemig COVID-19 yn rhestr anrhydeddau diweddar pen-blwydd y Frenhines.

2. **Datganiadau o fuddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **Datganiad gan Arweinydd y Cyngor**

Anerchwyd y cyngor gan y Cynghorydd S K Hunt, Arweinydd y Cyngor:

*"Ar gyfer y cyngor y prynhawn yma, hoffwn nodi manylion ynghylch sut y mae Clymblaid yr Enfys yn bwriadu gweithio a'n meysydd ffocws cynnar.*

*O ran ein rhaglen gychwynnol, mae'r Glymblaid wedi sicrhau consensws clir ar y pethau yr ydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt a sut rydym am weithio gyda'n gilydd.*

*Wrth i ni ddechrau ein cyfnod yn y swydd rydym am fod yn glir ein bod yn bwriadu adeiladu ar gryfderau'r cyngor hwn. Mae gennym weithlu o'r radd flaenaf. Ar ran Clymblaid yr Enfys rwyf am gadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu'r bartneriaeth gymdeithasol ymhellach gydag undebau llafur cydnabyddedig y cyngor. Roedd gweithlu'r cyngor yn eithriadol yn ystod anterth y pandemig ac rydym yn ymwybodol iawn o'r gwaith caled sy'n cael ei wneud ar draws yr holl wasanaethau wrth i ni symud o'r pandemig i gyfnod adfer. Byddwn ni'n rhoi ein cefnogaeth lawn i'r Prif Weithredwr a'i thîm wrth i ni weithio drwy'r cyfnod pontio sy'n digwydd ac fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth gynnar i Strategaeth Dyfodol Gwaith yr hydref hwn er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gallu recriwtio a chadw gweithlu hapus ac o ansawdd uchel.*

*Byddwn hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltu parhaus gyda'n cymunedau. Yn ogystal â gweithredu ar yr hyn a glywsom ar garreg y drws yn ystod ymgyrch yr etholiad, byddwn yn datblygu ymhellach y fenter Dewch i Sgwrsio a ddatblygwyd trwy'r gwaith adfer trawsbleidiol a wnaed y llynedd. Bydd clywed gan breswylwyr a chymryd yr amser i egluro'n glir beth rydym yn ei wneud, neu'r hyn nad ydym yn ei wneud, yn ganolog i'n gwaith. Byddwn yn cymryd camau di-oed i wella'r ffordd y mae'r cyngor yn cysylltu â'i gymunedau.*

*Byddwn hefyd yn gwneud ymrwymiad o'r newydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill ac yn edrych ymlaen at gwrdd â phartneriaid o'r sectorau cymunedol, gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i drafod a chytuno lle mae gennym agenda a rennir.*

*Mr Maer, rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi blas o'r egwyddorion a fydd yn llywio'r ffordd y bydd y Glymblaid yn gweithio i gyflawni ein gorau glas i'r bobl rydym yn eu cynrychioli.*

*Mae hyn yn arwain at ein meysydd ffocws cynnar.*

*Rwyf am ddechrau drwy gydnabod pwysigrwydd ein gwasanaethau addysg a'n gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn gan ddiogelu a chefnogi plant ac oedolion bregus hefyd yn hanfodol i waith y cyngor. Rydym yn hyderus bod gennym arweinwyr rhagorol ar draws ein hysgolion a'n gwasanaethau ond rydym hefyd yn glir bod y pandemig wedi gadael heriau sylweddol.  Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn elwa o arweinyddiaeth a chefnogaeth wleidyddol gref.*

*Wrth gadw ein hymrwymiad i'r gwasanaethau statudol mawr, rydym yn bwriadu rhoi mwy o flaenoriaeth i'n gwasanaethau gweladwy. Dyma wasanaethau sydd wedi gweld toriadau mawr oherwydd polisïau cyni [] Llywodraeth San Steffan. Ond efallai nad yw ein preswylwyr yn ymwybodol o'r holl resymau y tu ôl i'r gostyngiadau mewn gwasanaeth - maent yn gosod y cyfrifoldeb hwnnw ar y cyngor. Byddwn ni'n darparu'n gynnar yng nghyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor i wella ein mannau cyhoeddus a hefyd yn cynnal cyfres o adolygiadau polisi a gwasanaeth i gryfhau'r gwasanaethau gweladwy mewn ymateb i'r hyn mae ein preswylwyr wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.*

*Rydym hefyd yn edrych ymlaen at benodi Pennaeth Tai a Chymunedau a Phennaeth Hamdden, Twristiaeth, Diwylliant a Threftadaeth - bydd y penodiadau hyn, ynghyd â phortffolios newydd y cabinet, yn ein galluogi i osod map llwybr clir ar gyfer gweddill y tymor hwn a thu hwnt, wrth hefyd gwblhau'r broses o drosglwyddo gwasanaethau hamdden dan do yn ôl i reolaeth uniongyrchol y cyngor yn llwyddiannus. Byddwn hefyd yn cyflymu'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau carbon sero net a chwblhau ailfodelu'r swyddogaeth datblygu economaidd fel ein bod mewn sefyllfa well i sicrhau budd cyffrous y sector preifat yn y fwrdeistref sirol, gan gefnogi mentrau cymdeithasol, gan gryfhau ein heconomi leol mewn ffordd gynaliadwy a hefyd chwarae rhan gref mewn trefniadau rhanbarthol.*

*Fel cyngor, rydym bellach yn recriwtio ar gyfer sawl swydd mewn sawl adran. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl leol ddechrau gyrfa mewn*

*llywodraeth leol a bod yn rhan o'r timau sy'n darparu ein gwasanaethau pwysig.*

*Mr Maer, mae gan Glymblaid yr Enfys yr ydym wedi'i sefydlu farn a rennir ar yr hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno a sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywyd i'n holl breswylwyr. Gwasanaethu ein cymunedau yw'r un peth sy'n ein huno ni i gyd yn yr ystafell hon - cynrychiolwyr etholedig a staff y cyngor fel ei gilydd. Rwy'n gwybod, o fod wedi gweithio gyda llawer ohonoch dros y pedair blynedd ar ddeg diwethaf, faint bynnag y byddwn yn anghytuno ar adegau, rydym i gyd yma i wneud y gorau y gallwn i breswylwyr CBSCNPT, i ddarparu'r gwasanaethau o safon y maent eu heisiau, yn eu hangen ac yn eu disgwyl yn briodol.*

*Hoffwn gloi, Mr Maer, drwy ddweud, yn wylaidd a balch, ei bod yn anrhydedd i arwain Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Edrychaf ymlaen at y pum mlynedd nesaf, at gydweithio ar draws y cyngor fel Aelodau a Swyddogion a, thrwy edrych ymlaen ac nid yn ôl, i gyflawni ar gyfer ein trefi, darparu ar gyfer ein pentrefi ac, yn y pen draw, gyflawni ar gyfer ein preswylwyr."*

4. **Hawl i Holi'r Cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5. **Pwyllgor Safonau CBSCNPT - Penodi Aelod Annibynnol**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drosolwg i Aelodau'r Cyngor o'r adroddiad a ddosbarthwyd i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol i Bwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Amlygwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor yn cadarnhau'r ymgeiswyr llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD**:

1. Bod dau aelod annibynnol arall yn cael eu recriwtio i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau Castell-nedd Port Talbot.

2. Bod panel ymgynghorol o un aelod lleyg o'r panel (Mrs Gaynor Richards), aelod o'r grŵp annibynnol sydd hefyd yn gynghorydd tref a chymuned (a enwebwyd gan Arweinydd y Cyngor), y Maer a dau Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn cael eu

cynnull i gynnal unrhyw gyfweliad, gydag argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r cyngor.

3. Bod y gyfres o ddogfennau sy'n cael eu rhoi i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am y ddwy swydd wag yma yn cael eu cymeradwyo.

6. **<u>Newid i Gymesuredd Gwleidyddol ac Aelodaeth Pwyllgorau</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y newidiadau i gymesuredd gwleidyddol ac aelodaeth y pwyllgor fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r dyraniad cyfrannol o seddi i'r grwpiau gwleidyddol a gynhwysir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad.

3. Cymeradwyo'r prif Gynghorydd a'r dirprwy Gynghorydd tref/cymuned i'r Pwyllgor Safonau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ym mharagraff 4.

4. Cymeradwyo'r Aelodau Hyrwyddo fel y nodir ym mharagraff 5 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **<u>Rhybudd o gynnig dan Adran 10 Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw Rhybudd o Gynnig.

8. **<u>Cwestiynau gan Aelodau, gyda Hysbysiad, dan Reol 9.2 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor</u>**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

9. **<u>Eitemau brys</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**